

# Cofnodion Cyfarfod Arbennig

2/10/19, Canolfan Henblas

**Presennol:** Tyly Roberts, Clwyd Davies, Eleri Jones, Emyr Jones, Dafydd Williams, Lis Puw (Clerc)

**Ymddiheuriadau:** Geraint Roberts

## **Cais NP5/70/160A: Bryn Hynod, Llangywer**

Nodwyd fod y Cyngor wedi gwrthod cais tebyg (NP/70/160) ar 18/7/19 ar y sail fod y datblygiad yn fawr ac y byddai traffig yn cynyddu ar hyd ffordd gul.

Wrth edrych ar gais NP5/70/160A, nododd y Cynghorwyr fod y cais hwn yn un tebyg iawn i'r un blaenorol o ran maint - felly roedd eu gwrthwynebiad gwreiddiol ar y sail hon yn dal.

Sylwyd ar rai newidiadau yn y cais, megis enw'r ymgeisydd ei hun ac enwau 3 perchennog; deallwyd, yn ôl yr wybodaeth oedd gan y Cynghorwyr, nad ydyw'r perchnogion a enwir yn preswyllo yn y cyfeiriad hwn.

Nodwyd mai'r newid mwyaf yn y cais ydyw newid o fod yn ddwy uned gwyliau i un uned breswyl. Cytunodd y Cynghorwyr – o graffu'n fanwl ar y cynlluniau – mai newid mewn geiriau ydyw hwn a bod y cynllun yn ei hanfod yn debyg iawn i'r cais cynllunio cyntaf a wnaethpwyd ac a wrthodwyd.

Cytunwyd nad yw'r cais yn ateb anghenion lleol am dai. Cytunwyd bod pryder nad gwir ddiben y cais ydyw i ymateb i anghenion lleol. Pe byddai'r cais hwn yn llwyddo, cytunwyd y dylid rhoi amod gwerthiant lleol arno.

Deallir fod diddordeb wedi ei fynegi i gyfrannu at y gronfa gymunedol ar gyfer tai fforddiadwy er mwyn hepgor yr amod lleol. Cytunodd y Cynghorwyr na fyddai hyn o fudd i gymuned Llangywer. Ymhellach, pe byddid wedyn yn rhoi'r adeilad ar y farchnad agored, fe fyddai ei bris yn debygol o fod tu hwnt i allu pobl leol i'w brynu.

Roedd cytundeb fod y Cynghorwyr yn gyson wedi gwrthwynebu ceisiadau cynllunio eraill tebyg, ar y sail fod gormodedd o unedau sy'n denu ymwelwyr yn ardal Cyngor Cymuned Llangywer a bod hyn yn cael effaith andwyol ar y diwylliant lleol ac ar brisiau tai.

Cytunwyd yn unfrydol i WRTHWYNEBU'R cais hwn.

Wrth drafod, defnyddiwyd Datganiad Ysgrifenedig Cynllun Datblygu Lleol Eryri 2016-2031. (*Sylwyd yn arbennig ar y Cyflwyniad tud 21 para 1.50; polisi strategol A tud 30 para xi; a tud 68*)